


Cipolwg ar gyllid y Brifysgol

O ganlyniad i'r adborth a gawsom gan y myfyrwyr ynghylch cyllid y Brifysgol a sut rydym yn gwario arian y ffioedd dysgu, bu'r Brifysgol ac Undeb Bangor yn cydweithio ar broiect i sicrhau tryloywder yr wybodaeth a roddwn i'r myfyrwyr ynghylch incwm a gwariant y Brifysgol.

Mae gan Brifysgol Bangor nifer o ffynonellau incwm at gynnal a datblygu'r Brifysgol. Mae hynny'n cynnwys y ffioedd dysgu a chontractau addysgol, grantiau'r corff cyllido a grantiau ymchwil, buddsoddiadau a rhoddion yn ogystal ag incwm y neuaddau, arlwyo a'r cyfleusterau.

Incwm y Brifysgol (£146.4m) yn 2018/19



Mae'r rhan fwyaf o'r incwm yn gysylltiedig â gwaith graidd yr addysg a'r ymchwil; a daw'r cyllid yn uniongyrchol gan y myfyrwyr ar ffurf Ffioedd Dysgu, yn bennaf gan Lywodraethau neu Ddiwydiant ar gyfer ein gwaith Ymchwil, a'r ddau'n cael eu cefnogi gan grantiau craidd y Cyngor Cyllido (HEFCW). Ar wahân i'r prif ffynonellau hyn, rydym yn gwneud rhywfaint o waith masnachol (ymgyngori, trwyddedu ac yn y blaen) ac yn cynnal bron i 3,000 o lefydd mewn Neuaddau Preswyl ar y campws. Mae'r Brifysgol hefyd yn elwa o bryd i'w gilydd o roddion hael gan gymwynaswyr a chyn-fyfyrwyr.

£146.4m oedd ein hincwm yn 2018/19. Mae'n llai nag oedd yn 2017/18 pan oedd yn £164.9m, er bod hynny'n cynnwys tua £20m o grantiau cyfalaf a delid unwaith a dyna hi. Cyllid yw hwnnw a gawn i brynu adeiladau neu asedau, a all barhau am ddeng mlynedd neu fwy, ond ni chaiff y gost ei chynnwys yn y ffigurau gwariant.

Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig, a does dim disgwyl iddi wneud dim 'elw' blynyddol yn barhaus; yn wir, rhaid inni wario neu fuddsoddi ein holl adnoddau i gyflawni ein hamcanion elusennol, a hynny er lles y cyhoedd. Yn ogystal ag Addysgu ac Ymchwil, mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned leol, cefnogi ffyniant economaidd lleol trwy weithio gydag asiantaethau a busnesau lleol yn ogystal ag ehangu mynediad at y ddarpariaeth Addysgu Uwch i bawb.

Rhaid i'r Brifysgol reoli cyllidebau'n ofalus, er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'r holl weithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw mewn unrhyw flwyddyn benodol, gan gynnwys cynhyrchu gwarged bach lle bo hynny'n bosibl at anghenion ac ansicrwydd y dyfodol. Rhaid hefyd ystyried yr angen i fuddsoddi, atgyweirio ac ailosod yr asedau sylfaenol sylweddol sydd gennym yn y pen draw, gan gynnwys dros £300m o asedau sy'n cael eu defnyddio'n feunyddiol yn ein gweithgareddau. Mewn unrhyw flwyddyn benodol, byddwn fel arfer yn gwario tua 60% o'n hincwm ar gostau staff, a'r rhan fwyaf o'r gweddill ar gyflenwyr/partneriaid mewn lluo o weithgareddau addysgu ac ymchwil, costau cynnal a chadw'r ystadau, ynghyd â gwasanaethu rhaglenni adeiladu newydd ac ad-daliadau prydles neu ddyledion.

Gwariant y Brifysgol (£148.3M) yn 2018/19


GWASANAETHAU'R PRIFYSGOL A CHEFNOGI'R MYFYRWYR

Mae hyn yn cynnwys y staff gweinyddol canolog e.e. Gwasanaethau'r Myfyrwyr fel Cwnsela, gwasanaethau Anabledd a Chymorth Ariannol; Gweinyddiaeth Myfyrwyr; Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, Iechyd a Diogelwch, Marchnata a Recriwtio ac yn y blaen.

GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL


COSTAU ADEILADAU A'R YSTADAU

Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r holl adeiladau a thiroedd, ac eithrio'r neuaddau ac arlwy.



Sut mae ffioedd y myfyrwyr yn cyfrannu at wariant y Brifysgol?

Mae Prifysgol Bangor yn buddsoddi ffioedd dysgu ein myfyrwyr yn bennaf yn ein hadrannau academiaidd, er mwyn sicrhau bod gennych lefydd da i astudio a dysgu ac yn ein gwasanaethau proffesiynol a'n gwasanaethau cefnogi.



Pam mae angen i'r Brifysgol wneud gwared ar ei gweithgareddau?



Er mwyn sicrhau y bydd gweithgareddau'r Brifysgol yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir



Er mwyn sicrhau y gellir lliniaru unrhyw gostau annisgwyl a allai effeithio ar iechyd ariannol y Brifysgol



Er mwyn sicrhau bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i ailosod, gwella a buddsoddi yn ei chyfleusterau a'i hystad

Y sefyllfa gyfredol

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu ar ddiffyg o 2%. Ein targed yw gweithredu ar warged o 3-4%.

Er y boom yn rhedeg ar ddiffyg ers nifer o flynyddoedd, nid yw'r sefyllfa'n gynaliadwy, a rhaid inni anelu at gynnal gwarged bach. Byddai hyn yn fodd inni adeiladu byffer bach rhag effaith annisgwyl materion sydd y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. Gall y rhain ddeillio o ddigwyddiadau Geo-wleidyddol, trychinebau naturiol neu amgylchiadau economaidd niweidiol parhaus, ond mae angen eu gwneud heb effeithio ar yr ymrwymadau sydd gennym i'r rhanddeiliaid allweddol.

Buddsoddiadau diweddar a chyfredol:

Buddsoddwyd tua £140m yn ystod y 6 blynedd diwethaf mewn amryw o brojectau adeiladu a seilwaith gan gynnwys datblygiadau mawr ym Mhentref Myfyrwyr y Santes Fair, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio a Chanolfan Forol Cymru ym Mhorthaethwy. Hefyd, mae gwelliannau i gyfleusterau labordai Brambell, labordy Biotechnoleg Amgylcheddol newydd yn Thoday ac adeiladu Parc Gwyddoniaeth Menai yn cynnig mannau addysgu, ymchwil a gweithio modern. Yn gefn i'r rheiny bu uwchraddiad sylweddol ar y systemau TG gan gynnwys WiFi ym mhob adeilad, yr offer clyweledol diweddaraf mewn ystafelloedd addysgu/llyfrgelloedd ac ystafelloedd cyfrifiadurol â mynediad agored. Ymhlith y projectau diweddaraf mae mesurau effeithlonrwydd ynni fel goleuadau LED, Solar PV ac ati a fydd yn sicrhau arbedion dros £300 mil y flwyddyn trwy ddefnyddio llai o'n cyflenwadau ynni 'gwyrdd' 100% yn ogystal ag adeiladu cae pwrpasol 3G newydd yn Nhreborth.